# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Ceinwen Thomas | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Dinesig:** | Yr Arglwydd Faer 2014-2015 |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliwyd cymorthfeydd bob tair wythnos yng Nghanolfan Gymunedol Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs.

Cynhaliwyd ymweliadau safle i edrych ar feysydd i'w gwella mewn perthynas â chronfa ddyranedig o arian Dinas a Sir Abertawe y gallai Cynghorwyr ei defnyddio ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn y ward.

Roeddwn i'n aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwyrosydd ac yn parhau i fod yn aelod.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfannau Cymunedol Treboeth a'r Clâs.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 0 | / | 7 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 1 | / | 7 | 14 | % |
| Y Cyngor | 8 | / | 17 | 47 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 1 | / | 7 | 14 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 0 | / | 8 | 0 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 0 | / | 4 | 0 | % |
| **CYFANSWM** | **10** | **/** | **50** | **20** | **%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Perfformiad Craffu y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu y Gwasanaethau i Blant sy'n Derbyn Gofal | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Llywodraethu Ysgolion (cyn ymchwilio) | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFANSWM** | **3** | **/** | **5** | **60** | **%** |

Sylwer, o ganlyniad i fy nghyfrifoldebau fel Arglwydd Faer, mae hyn wedi effeithio ar fy mhresenoldeb pwyllgor a chraffu.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2014-2015, roedd gennyf rôl yr Arglwydd Faer. Roedd y rôl hon yn amrywiol ac yn cynnwys cwrdd ag amrywiaeth eang o aelodau'r cyhoedd. Fe fynychais dros 450 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gwariais fy arian Gwella'r Amgylchedd dynodedig ar osod bolardiau ar ardal o wair ar Heol Llangyfelach, Treboeth er mwyn rhwystro parcio. Gweithiais i gael safle bws newydd gyferbyn â thafarn yr Eagle yn Nhreboeth.

Cefais help i glirio tir tair eglwys yn fy ardal.

Cysylltais â'r ysgolion ynglŷn â grantiau Cymunedau'n Gyntaf i helpu mewn meysydd penodol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

23/10/2014 - Diogelu
03/07/2014 - Hyfforddiant Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

O ganlyniad i fy rôl fel Arglwydd Faer, nid wyf wedi gallu ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant pellach yn y flwyddyn ddinesig 2014-2015.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cyn i mi gael fy ethol ym 1990, roeddwn yn deall y byddai'r gwaith yn cynnwys gweithio 7 niwrnod yr wythnos (24/7)

Rwyf wedi bod yn brysur ar y ffôn a thros e-bost, wrth fynd i'r afael ag ymholiadau fy etholwyr. Rwyf bob amser wedi dychwelyd galwadau os gadawyd negeseuon i mi gan fy etholwyr a sicrhau fy mod yn ymdrin â materion dros ben yn rheolaidd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Dinesig: £24,000 - Yr Arglwydd Faer

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13.07.15 |